







# Bwrdd y gêm

<p><b>DECHRAU</b></p> 	<p>1. Mae'r gwanwyn yma! Mae brogaod yn brysur yn paru yn y pwll. <b>Symud ymlaen 1</b></p>	 <p>2. Mae miloedd o wyau'n swatio yn y grifft.</p>
<p>5. Plentyn yn cymryd peth o'r grifft. Yr wyau'n marw y tu allan i'r pwll. <b>Colli 2. Symud ymlaen 1</b></p>	<p>4. Tywydd cynnes yn toddi'r rhew. Y grifft yn tyfu'n dda.</p>	<p>3. O na! Mae rhew yn lladd peth o'r grifft. <b>Colli 2</b></p>
<p>6. Mae'r grifft yn deor yn benbyliaid. Maent yn chwilio'r pwll am blanhigion i'w bwyta.</p>	 <p>7. Mae chwilen blymio fawr yn chwilio am benbyliaid. <b>Colli 1</b></p>	<p>8. Mae nymff gwas y neidr yn ymosod ar ddau benbwl ac yn eu bwyta. <b>Colli 1</b></p>
 <p>11. Nawr mae gan y penbyliaid goesau blaen hefyd!</p>	<p>10. Mae hen gan olew'n llygru rhan o'r pwll. <b>Colli 3</b></p>	 <p>9. Mae'r penbyliaid yn tyfu – edrychwch ar eu coesau ôl.</p>
<p>12. Mae sbwriel picnic a daflwyd i'r pwll yn niweidio rhai o'r brogaod bach. <b>Colli 3</b></p>	<p>13. Mae'r penbyliaid yn edrych fel brogaod nawr. Maent yn dechrau bwyta anifeiliaid yn ogystal â phlanhigion.</p>	<p>14. Mae creyr glas yn dal ambell i froga i ginio. <b>Colli 2</b></p>
<p>17. Mae broga ar y lawnt pan gaiff y gwair ei dorri! <b>Colli 1</b></p>	<p>16. Mae neidr y gwair lwgld yn bwyta rhai o'r brogaod bach. <b>Colli 2</b></p>	<p>15. Mae'r brogaod bach yn gallu byw ar y tir nawr yn ogystal ag yn y dŵr.</p>
<p>18. Mae'r brogaod yn gadael y pwll i chwilio am gartrefi newydd. Caiff rhai eu lladd ar y ffordd. <b>Colli 2. Symud ymlaen 1</b></p>	<p>19. O'r diwedd mae'r brogaod wedi cael lle diogel i fyw! <b>Symud ymlaen 1</b></p>	 <p><b>DIWEDD</b></p>

Faint o'ch wyau chi wnaeth oroesi?

Beth ddigwyddodd i'r gweddill?

